


DOSBARTHIAU 2 a 3
BLYNYDDOEDD 8 a 9


1. Mae'r tri rhif ar bob llinell yn adio i'r un cyfanswm.
Beth yw'r cyfanswm?

Ateb _____

Nodwch y rhifau coll



2. Sawl petryal sy'n y llun?



- (a) 6 (b) 7 (c) 8 (ch) 15 (d) 18 (dd) rhif arall

3. Beth yw'r 34ydd rhif yn y dilyniantau canlynol?

(i) 2, 3, 1, 2, 3, 1, 2, 3, 1,.....

(a) 1 (b) 2 (c) 3

(ii) 1, 2, 3, 2, 1, 2, 3, 2, 1,.....

(a) 1 (b) 2 (c) 3

4. Dyma'r digidau 1 i 9

1 2 3 4 5 6 7 8 9

Gellir eu cyfuno a gosod symbolau i gael ateb 50 fel hyn :

$$12 - 3 + 45 + 6 + 7 - 8 - 9 = 50$$

Ceisiwch chwi gael yr ateb 100.

Ateb : _____

Ceisiwch ddarganfod ail ffordd o gyrraedd 100

Ateb : _____

5. Mae dafnau inc wedi syrthio ar rai o'r rhifau yn y symiau canlynol:

$$\begin{array}{r} \bullet 3 \bullet \\ \times \quad 9 \\ \hline 4 \bullet 8 \bullet \end{array}$$

$$\begin{array}{r} \bullet \bullet \bullet \\ \times \quad 9 \\ \hline \bullet \bullet 1 \end{array}$$

Beth yw'r rhifau coll?

$$\begin{array}{r} 3 \\ \times \quad 9 \\ \hline 4 \quad 8 \end{array}$$


$$\begin{array}{r} \quad 9 \\ \times \quad 9 \\ \hline \quad 1 \end{array}$$

6. Dydd Sul oedd hi ar Ionawr 1af, 1984.

Ar ddiwrnod cyntaf yr ugeinfed ganrif (Ionawr 1af, 1901) roedd hi'n Ddydd


(a) Mawrth (b) Mercher (c) Iau (ch) Gwener (d) Sadwrn

7. Wrth ddilyn rheol arbennig mae'r rhifau ar y disiau canlynol yn rhoi'r atebion a nodir. Beth yw'r rheol?



Nodwch y rhif coll

- (a) 6 (b) 9 (c) 12 (ch) 20 (d) 28
8. Daeth deg person i gyfarfod a bu pob un yn ysgwyd llaw unwaith â phob un arall.
- Sawl gwaith y bu ysgwyd llaw yn y cyfarfod?
- (a) 9 (b) 45 (c) 50 (ch) 90 (d) 100
9. Mae trigolion Ynys Afallon yn rhannu'r dydd (24 awr) yn 36 rhan. Gelwir pob rhan yn RAM a rhennir pob RAM ymhellach yn 40 RAMUNUD.
- Os yw cloc cyffredin yn dangos 4.40p.m. yr amser ar gloc Ynys Afallon yw :
- (a) 6.40 (b) 7.00 (c) 24.40 (ch) 24.60 (d) 25.00
10. Sawl llwybr gwahanol sy'n cysylltu A â B gan dechrau o A a symud i fyny neu i'r dde yn unig? Mae'r dotiau'n dangos un o'r llwybrau.



- (a) 2 (b) 4 (c) 8 (ch) 10 (d) 12

11. Rhennir ciwb ac iddo ymyl 3cm yn nifer o giwbiau bach 1cm.


Sawl ciwb bach sydd ? Ateb _____

Sawl ciwb bach sy'n cyffwrdd wyneb yn wyneb ag union bedwar ciwb bach arall?

(a) 1 (b) 4 (c) 6 (ch) 8 (d) 12

12. Mae set dominos yn cynnwys pob pâr o rifau o'r dim dwbl i'r chwech dwbl ac mae pob pâr yn ymddangos unwaith yn unig.

Er enghraifft, y domino hwn :



yw'r un-pump ac hefyd y pump-un.

Sawl domino sydd yn y set?

(a) 21 (b) 28 (c) 31 (ch) 36 (d) 42

13. Sawl sgwâr yw arwynebedd y ddraig ?

Ateb _____

